18 - Llanberis i Waunfawr 4.5 milltir/7.3 km

O'r Eglwys yn Llanberis, cerddwch tuag at ganol y pentref. Trowch i'r chwith i Ffordd Capel Coch lle mae arwydd i'r Hostel Ieuenctid. Ar ôl pasio'r Capel ar eich ochr chwith, trowch i'r dde ac yna i'r chwith i fyny'r allt. Dilynwch y ffordd yma allan i ddarn agored o gefn gwlad. Yn y maes parcio bach anffurfiol ym Maen-llwyd-isaf, ewch i'r dde ar hyd y trac.

Dilynwch hwn dros y bryn gan basio hen chwareli yn gyntaf ac yna cerddwch ar ochr dde'r goedwig. Mae'r ffordd yn un fetlin yn awr a byddwch yn dilyn hon am 0.7 milltir/1.1 km arall. Yn syth ar ôl iddi droi i'r dde, cymerwch y llwybr troed (ffordd fynediad) ar y chwith yn Hafod Oleu i ddilyn y cyfeirbwyntiau sydd â lluniau gwas y neidr arnynt.

Pasiwch y ddau fwthyn ar y chwith ac yn union ar ôl y rhyd cymerwch y llwybr i'r dde i lawr yr allt gyda nant ar y dde. Yn y cae mwy, trowch i'r dde ar hyd y llwybr troed sydd yn awr yn dirwyn ar ochr dde wal drwy nifer o gaeau bychain yn dilyn cyfeirbwyntiau (gwas y neidr) Hafod Oleu i Fryn Pistyll yn Waunfawr. Dilynwch y lôn at y brif ffordd a throi i'r chwith.